



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol

Mae sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn gyfres o ddigwyddiadau gyda'r nod o roi cyfle i ymarferwyr o bob rhan o'r wlad ddod at ei gilydd a thrafod pynciau pwysig gyda'i gilydd a gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y sgyrsiau, a'r wybodaeth y maent yn ei chynhyrchu, yn hanfodol bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau a chefnogi ysgolion wrth iddynt symud tuag at y diwygiadau addysg a'r cwricwlwm.

Nod sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol yw casglu barn a syniadau gan ymarferwyr addysg er mwyn llywio penderfyniadau polisi a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector. Fel rhan o'r sgyrsiau, bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn casglu gwybodaeth drwy drafodaethau wedi'u hwyluso. Bydd pob digwyddiad yn agored i ymarferwyr ac yn cael ei hysbysebu drwy sianeli perthnasol, gyda chofrestru fesul digwyddiad.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data. Bydd nodiadau o'r sesiynau yn ddiennw a bydd manylion cyswllt unrhyw ddigwyddiad penodol yn cael eu cadw am 12 -24 mis.

Bydd dadansoddiad o'r nodiadau a dadansoddiad cyfanredol ar nodweddion mynychwyr yn cael eu gwneud i gefnogi cynhyrchu adroddiadau sy'n crynhoi canlyniadau'r sgyrsiau. Ni fydd unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd yn cynnwys gwybodaeth bersonol a allai olygu bod modd eich adnabod.

Cyfranogwyr sy'n cofrestru i fod yn rhan o Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, caiff eich gwybodaeth ei:

1. Defnyddio i gysylltu â chi ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol;
2. Rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Cazbah Ltd sydd wedi'u contractio i reoli a chyflwyno'r Sgyrsiau ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd Cazbah Ltd yn darparu'r llwyfan ac yn rheoli'r cofrestru ar gyfer sgyrsiau, ac adborth a fydd yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Pa ddata personol a ddelir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Bydd digwyddiadau'n cael eu hysbysebu i ymarferwyr drwy rwydweithiau a gwefannau perthnasol. Pan fyddwch yn penderfynu cofrestru ar gyfer digwyddiad, byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol fel rhan o'r broses gofrestru:

- enw
- cyfeiriad e-bost

Byddwn hefyd yn gofyn am gysylltiad a rôl eich ysgol neu sefydliad fel y gellir cynnal dadansoddiad cyfanredol o'r mynychwyr yn ôl digwyddiad. Byddwn hefyd yn gofyn am eich dewis iaith fel y gellir darparu ar gyfer hyn yn y digwyddiad.

Trawsgrifio sgysrsiau

Bydd pob Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol yn cael ei drawsgrifio'n awtomatig. Pwrpas trawsgrifio'r sgysrsiau fydd nodi profiadau a heriau a brofir gan wahanol rolau a lleoliadau gwahanol. Er enghraifft, gallai ymarferwyr mewn ysgolion cynradd gael profiadau gwahanol i ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd. Gall ymarferwyr mewn ysgolion arbennig gael profiadau gwahanol i leoliadau eraill, a bydd gan arweinwyr System brofiadau gwahanol i ymarferwyr yn y dosbarth. Defnyddir yr wybodaeth hon i alluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i dargedu cymorth yn well.

Bydd y trawsgrifiadau'n cael eu defnyddio i greu adroddiad dienw ar gyfer Sgysrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar Hwb.

Bydd y trawsgrifiadau'n cael eu cadw am 12 mis.

Cofnodi cyfarfodydd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach ar y cwricwlwm newydd

Bydd rhai digwyddiadau fel y sesiwn briffio hwyluswyr a chyfarfod sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd yn gyfarfodydd a gaiff eu recordio gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach. Bydd y recordiadau ar gael i ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach yn Sgysrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol. Pwrpas y recordiadau hyn yw rhannu astudiaethau achos, profiadau ac arferion. Bydd rhybudd o'r recordiadau yn cael eu rhoi cyn y cyfarfodydd gan ganiatáu i unigolion ddiffodd camerâu neu i beidio â chymryd rhan. Gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar wahân ar gyfer hyn (<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/rhwydwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-gweithredu-r-cwricwlwm/>).



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mewn digwyddiadau **nad** ydynt yn cael eu cofnodi, bydd nodiadau ysgrifenedig yn cael eu cymryd ond ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chynnwys yn y nodiadau ac felly byddant yn ddienw.

Bydd unrhyw ddadansoddiad o'r digwyddiadau'n cael ei wneud ar ddata na ellir ei adnabod. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi nodiadau anhysbys digwyddiadau yn ogystal â rôl a sefydliad cyfranogwyr a fydd yn cael ei wneud mewn modd sy'n golygu bod enwau a manylion cyswllt wedi'u dileu ac ni ellir adnabod unrhyw unigolyn o'r rôl a'r sefydliad (er enghraifft drwy ddefnyddio termau generig yn hytrach na theitl swydd benodol pan gynhyrchir yr wybodaeth o'r manylion cofrestru cyn eu dadansoddi).

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Ein tasg gyhoeddus, hynny yw arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru, yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth mewn perthynas â hyn.

Dewis yr unigolyn yn llwyr yw p'un a i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn ai peidio. Mae gweithgareddau ymgysylltu fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gellid defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn y prosiect hwn, er enghraifft, ar gyfer:

- Nodi ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gefnogi ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm newydd;
- Deall ehangder ac amrywiaeth barn a phrofiadau ymarferwyr ledled y sector;
- Datblygu polisïau newydd a gwella'r gwaith o gyflawni polisïau a swyddogaethau presennol.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw unrhyw ddata personol ar weinyddwyr diogel. Mae mynediad at yr wybodaeth wedi'i gyfyngu i'r tîm polisi a'r dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r maes polisi.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei gadw mewn fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt, a bydd unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod person yn cael ei dileu.

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd y manylion cyswllt o unrhyw ddigwyddiad unigol yn cael eu cadw am 12 – 24 mis ar ôl dyddiad y digwyddiad hwnnw. Os ydych yn cofrestru ar gyfer mwy nag un digwyddiad, yna bydd eich gwybodaeth gyswllt yn cael ei chadw sawl gwaith fel rhan o bob rhestr presenoldeb a phob un yn cael ei dileu'n unigol fel rhan o'r cylch 12 - 24 mis.

Hawliau'r unigolyn

O dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych. Mae gennych yr hawl:

- I weld copi o'ch data eich hun;
- I'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data;
- I wrthwynebu neu gyfyngu unrhyw brosesu (mewn rhai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau);
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio eich data, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

E-bost: Jane.Ellis@llyw.cymru
Rheolwr Rhwydweithiau Cenedlaethol
Uned Gwireddu'r Cwricwlwm

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru.